

PWYLLGOR YMDDEOL YN GYNNAR / DILEU SWYDDI

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 23 Mawrth, 2023.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd P. Drake (Cadeirydd); Cynghorydd H.C. Hamilton (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr A.M. Ernest, G. John, M.J.G. Morgan a N.C. Thomas

860 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd J.E. Charles.

861 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Chwefror, 2023 fel cofnod cywir.

862 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

863 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol ar y sail eu bod yn cynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl pob tebyg fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yn Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

864 CAIS I YMESTYN YMDDEOLIAD HYBLYG – B (CGC) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 13 A 14) –

Rhoddwyd ystyriaeth i ymestyn y cais am ymddeoliad hyblyg y gweithiwr uchod. Gyda golwg ar yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod, fe gafwyd wedyn

PENDERFYNWYD –

(1) CYMERADWYO ymestyn ymddeoliad hyblyg B yn unol â Pholisi'r Cyngor, yn amodol ar nad oes unrhyw amgylchiadau eraill yn codi yn y cyfamser pan fyddai cyflogaeth yn cael ei therfynu am reswm gwahanol.

(2) CYMERADWYO'r defnydd o'r pwerau dirprwyedig priodol, i alluogi parhau i leihau oriau contract y cyflogai o 37 i 18.5 yr wythnos hyd at fis Mai 2024.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Pennu'r ymddeoliad hyblyg o fewn y rheoliadau a chaniatáu ar gyfer digwyddiadau nad ydynt yn hysbys ar hyn o bryd.

(2) I gyflawni'r newid angenrheidiol i oriau gwaith y gweithiwr, i gynorthwyo parhad gwasanaeth, darparu cefnogaeth briodol i gynorthwyo'r trawsnewidiad i ymddeoliad y gweithiwr ac ail-fuddsoddi'r arbediad i gwrdd ag anghenion y gwasanaeth.

865 PENDERFYNU YMDDEOLIAD HYBLYG – D (CDS) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 12 A 13) –

Rhodddwyd ystyriaeth i'r cais am ymddeoliad hyblyg mewn perthynas â'r gweithiwr uchod. Gyda golwg ar yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod, fe gafwyd wedyn

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO'r cais am ymddeoliad hyblyg ar gyfer D o 1 Ebrill, 2023 neu cyn gynted ag y gellid ei drefnu'n gyfleus wedi hynny a chymeradwyo recriwtio i weddill y swydd.

Rheswm dros y penderfyniad

I gefnogi cais y gweithiwr am ymddeoliad hyblyg tra hefyd yn sicrhau cyflogaeth barhaus y gweithiwr am gyfnod o hyd at 3 blynedd, ac yn ystod y cyfnod hwnnw bydd sgiliau a phrofiad y gweithiwr yn parhau i gael eu defnyddio yn Llyfrgell y Barri.